**CYTUNDEB RHWNG AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL I DDARPARU A CHYNNAL PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD AR GYFER CYNGOR GWYNEDD A CHYNGOR SIR YNYS MÔN**

## STATWS Y CYTUNDEB HWN

Gwneir y Cytundeb hwn ar y 1af Chwefror 2011 rhwng Cyngor Gwynedd o Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn o Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Môn (a elwir ar ôl hyn yr Awdurdodau Cynllunio Lleol Partner (y ddau Awdurdod)) yn eu swyddogaethau fel Awdurdodau Cynllunio Lleol.

## (A) CYFLWYNIAD

A1. Cytunodd y ddau Awdurdod ar 15 Mehefin 2010 i sefydlu trefniadau i weithio ar y cyd i ddarparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y cyd gyfer y ddau Awdurdod. Cytunir bod:

i) Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (yr Uned) yn cael ei sefydlu i ddarparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar gyfer y ddau Awdurdod.
ii) Bod yr Uned yn dechrau gweithio ar un Cynllun Datblygu Lleol sengl ar gyfer y ddau Awdurdod.
iii) Bod Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (y Pwyllgor) yn cael ei ffurfio fel corff trawsffiniol, ffurfiol, ar gyfer cymryd penderfyniadau.

A2. Mae’r Cytundeb hwn yn sefydlu’r trefniadau a’r cyfrifoldebau ar gyfer darparu a gweithredu’r Pwyllgor ac yn dangos sut y bydd ei atebolrwydd (os o gwbl) yn cael ei rannu rhwng y ddau Awdurdod.

A3. Mae yna gytundeb ar wahân rhwng y ddau Awdurdod ar gyfer cynnal a darparu’r Uned ac mae sgôp ei waith yn **Atodiad A.**

## (B) SEFYDLU PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD (Y PWYLLGOR)

B1 Mae’r Pwyllgor yn cael ei sefydlu yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972 o dan adran 101, adran 102(1) (b) (hawl i ddau neu ragor o awdurdodau benodi cyd bwyllgor), adran 103 (gwariant cydbwyllgor i’w rannu rhwng yr awdurdodau), adran 104 (rheolau arferol awdurdodau lleol ar gyfer gwahardd aelod rhag bod yn aelod pwyllgor ar y cyd) ac adran 105 (gwahardd pleidleisio oherwydd buddiant mewn contractau ayb).

B2 Bydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am weinyddu’r Pwyllgor.

## (C) SWYDDOGAETHAU’R PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

C1 Ar ran y ddau Awdurdod, bydd gan y Pwyllgor y swyddogaethau canlynol:-

(i) Cytuno a pharatoi'n derfynol Gynllun Datblygu Lleol Adnau Gwynedd a Môn
(ii) Cytuno ar, a pharatoi'n derfynol, adroddiad ar ymatebion i ymgynghoriadau ac (yn ôl y gofyn) newid Cynllun Datblygu Lleol Adnau Gwynedd a Môn.
(iii) Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Gwynedd a Môn.
(iv) Cynghori ar ffurfio Cytundeb Darparu, Dewisiadau Strategol a Strategaeth Ddewisol Gwynedd a Môn.
(v) Paratoi Cynllun Datblygu Lleol Adnau Gwynedd a Môn
(vi) Paratoi ac ystyried Ymatebion i Ymgynghoriadau'r Cynllun Datblygu Lleol Adnau
(vii) Derbyn a chytuno ar Adroddiad yr Arolygydd Cynllunio.
(viii) Bod â chyfrifoldeb am fonitro ac adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Gwynedd a Môn
(ix) Bod â chyfrifoldeb am gynghori ar gadw trosolwg ar, ac adolygu, rhaglenni sy'n cael eu hariannu'n allanol nad ydynt yn dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor ond sy'n bwysig i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan neu ar ran y Pwyllgor ac i adnoddau sy'n cael eu rhannu. Bydd hyn yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) ymateb i gynlluniau Datblygu Lleol mewn Awdurdodau Cynllunio cyfagos ac ymateb i ddogfennau ymgynghori ynghylch Polisi Cynllunio Cenedlaethol a dogfennau cynghori.
(x) Cadw trosolwg ar, a derbyn adroddiadau gan, yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.
(xi) Ffurfio Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Gwynedd a Môn.
(xii) Penodi unrhyw banel neu weithgor er mwyn bod o gymorth i'r Pwyllgor wrth ei waith.

C2 Mae'r tabl yn **Atodiad B** y Cytundeb hwn yn dangos swyddogaeth y Pwyllgor o ran adrodd a chymryd penderfyniadau ar adegau allweddol wrth gynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol sengl.

C3 Nid yw Rheoli Datblygu yn swyddogaeth y Pwyllgor; mae hynny'n aros yn swyddogaeth y ddau Awdurdod unigol.

**(CH) AELODAETH Y PWYLLGOR**

CH1 Bydd gan y Pwyllgor gyfanswm o 14 o Aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd.

CH2 Bydd y ddau Awdurdod yn penodi Aelodau ar y Pwyllgor yn unol â'r cyfraddau canlynol:-

Cyngor Gwynedd = 7 Aelod o Gyngor Gwynedd

Cyngor Sir Ynys Môn = 7 Aelod o Gyngor Sir Ynys Môn

CH3 Bydd Aelodau'r ddau Awdurdod a benodir ar y Pwyllgor yn dilyn pob agwedd ar Gôd Ymddygiad Aelodau Gwynedd
CH4 Bydd y ddau Awdurdod yn penodi un Aelod wrth gefn rhag ofn y bydd lle gwag yn codi neu na fydd Aelod penodedig yn gallu bod yn bresennol ond, fel arall, ni chaniateir Aelodau sy'n dirprwyo.

**(D) HAWLIAU PLEIDLEISIO**

D1 Dim ond Aelodau o'r ddau Awdurdod sydd wedi'u penodi'n briodol a fydd â hawl i bleidleisio ar y Pwyllgor ac fe'u gelwir yn "Aelodau Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd".

**(DD) PENODI AELODAU AR Y PWYLLGOR**

DD1 Bydd y ddau Awdurdod yn penodi eu cyfran o Aelodau ar y Pwyllgor yn unol â'i drefniadau cyfansoddiadol ei hunan ar gyfer penodi ar bwyllgorau.

DD2 Pedair blynedd fydd cyfnod pob penodiad, pe na byddai Aelod bellach yn aelod o'r Awdurdod bydd yn rhaid i'r Awdurdod hwnnw benodi o'r newydd.

**(E) TREULIAU'R PWYLLGOR**

E1 Bydd treuliau Aelodau yn codi o'u haelodaeth o'r Pwyllgor yn daladwy gan y ddau Awdurdod unigol yn unol â'u Cyfansoddiadau eu hunain.

E2 Bydd y ddau Awdurdod yn cyfarfod â chostau gwasanaethu'r Pwyllgor yn gyfartal.

**(F) CYFARFODYDD Y PWYLLGOR**

F1 Bob blwyddyn, bydd y Pwyllgor yn cynnal Cyfarfod Blynyddol gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar ôl i bob un o'r ddau Awdurdod gynnal eu cyfarfodydd blynyddol eu hunain. Bydd y cyfarfodydd arferol yn cael eu trefnu am y flwyddyn i ddod yn y Cyfarfod Blynyddol.

F2 Cynhelir cyfarfodydd arferol y Pwyllgor o leiaf bob chwarter.

F3 Gall yr uwch weinyddydd pwyllgor alw cyfarfodydd anarferol, yn ychwanegol at y rhai arferol, ar gais y Cadeirydd neu os bydd tri Aelod o'r Pwyllgor wedi gofyn am gyfarfod o'r fath ac wedi llofnodi a chyflwyno cais i Gadeirydd y Pwyllgor ac nad yw ef / hi wedi galw cyfarfod o'r fath o fewn saith diwrnod i gyflwyno'r cais.

F4 Bydd rhybuddion a gwysion i gyfarfod yn cael eu cyflwyno o leiaf bum diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod hwnnw.

**(FF) CWORWM I GYFARFODYDD Y PWYLLGOR**

FF1 Y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor fydd pedwar o'i Aelodau.

**(G) CADEIRYDD CYFARFODYDD Y PWYLLGOR**

G1 Bydd Cyfarfod Blynyddol y Pwyllgor yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd o blith aelodau'r Pwyllgor. Tymor gwasanaeth y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fydd dwy flynedd.

G2 Bydd aelod o un Awdurdod yn cael ei benodi'n Gadeirydd ac aelod o'r Awdurdod arall yn Is-gadeirydd. Bydd y gadeiryddiaeth a'r is-gadeiryddiaeth yn cael eu dal bob yn ail rhwng Aelodau'r ddau Awdurdod o'r naill dymor i'r llall.

G3 Os daw swydd Cadeirydd neu Is-gadeirydd yn wag yn ystod tymor y swydd bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn dewis un arall. Bydd yn rhaid i'r un a benodir fod yn Aelod o'r un Awdurdod a'r Aelod y mae'n cymryd ei le.

G4 Bydd y Cadeirydd yn cadeirio cyfarfodydd a'r Is-gadeirydd yn gwneud hynny os bydd yn absennol. Os bydd y ddau'n absennol, bydd y Pwyllgor yn dewis Aelod arall i gadeirio.

G5 Ni fydd Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig yn cael ei dalu i'r Cadeirydd.

**(NG) TREFNIADAU CYFARFODYDD Y PWYLLGOR**

NG1 Bydd trefniadau cyfarfodydd y Pwyllgor yn unol â rheolau sefydlog Cyngor Gwynedd.

NG2 Bydd pob eitem o fusnes yn agored i gyfranogiad y cyhoedd, heblaw'r eitemau hynny sy'n cael eu datgan yn gyfrinachol ac yn eithriedig o dan ddeddfwriaeth berthnasol.

NG3 Ym mhob achos, cymerir cofnodion o'r cyfarfod a bydd enwau'r Aelodau a'r Swyddogion sy'n bresennol yn cael eu cofnodi a hefyd ddatganiadau o fuddiannau personol neu ragfarnol.

NG4 Penderfynir ar bob mater a ddaw o flaen cyfarfod drwy fwyafrif syml o'r Aelodau sy'n bresennol yn yr ystafell ac sy'n bwrw pleidlais pan fydd y cwestiwn yn cael ei gyflwyno. Oni bai y mynnir cynnal pleidlais gofrestredig, bydd y Cadeirydd yn cymryd y bleidlais drwy ddangos dwylo, neu os nad oes anghytuno, drwy gadarnhad y cyfarfod. Os bydd yna nifer cyfartal o bleidleisiau dros ac yn erbyn cynnig, bydd gan y person sy'n cadeirio'r cyfarfod ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

NG5 Bydd holl drefniadau'r Pwyllgor yn unol â Chyfansoddiad Cyngor Gwynedd oni bai bod y Cytundeb hwn yn datgan yn wahanol.

**(H) MANNAU CYFARFOD A GWEINYDDIAETH CYFARFODYDD Y PWYLLGOR**

H1 Cynhelir cyfarfodydd yn Swyddfeydd y ddau Awdurdod bob yn ail. Bydd costau mannau cynnal y cyfarfodydd yn cael eu talu'n gyfartal gan y ddau Awdurdod.

H2 Bydd Cyngor Gwynedd yn darparu uwch weinyddydd / gweinyddwyr a fydd yn gweinyddu pob cyfarfod o'r Pwyllgor drwy ymdrin â materion trefniadol yn gysylltiedig â threfnu, galw a rhedeg cyfarfodydd, gan gynnwys cymryd a chynhyrchu cofnodion a chasglu, copïo a rhannu rhaglenni ar gyfer cyfarfodydd a rhoi cyngor ar bwyntiau o drefn ac ynghylch cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn ôl y gofyn.

**(I) TROSOLWG A CHRAFFU'R PWYLLGOR**

I1 Bydd y ddau Awdurdod, gan ddefnyddio eu trefniadau presennol eu hunain fel y byddant yn gweld yn dda, yn cynnal trosolwg a chraffu'n ffurfiol ar weithgareddau'r Pwyllgor.

**(L) ADDASU A THERFYNU'R CYTUNDEB**

L1 Bydd gofyn cael caniatâd y ddau Awdurdod i newid neu addasu'r Cytundeb.

L2 Bydd y Cytundeb hwn yn dal mewn grym tan 2016.

**ATODIAD A**

**Sgôp Gwaith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd**

**Prif Ddyletswyddau:**

1. Cynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol, sengl, ar gyfer ardaloedd Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (neu fel y'u diwygiwyd)
2. Monitro Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd
3. Cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol
4. Darparu cyngor arbenigol (gan gynnwys cynghori ar geisiadau a chynigion cynllunio, materion gorfodaeth, apeliadau) ac ar ymatebion i ymgynghoriadau ar faterion Polisi Cynllunio i'r ddau Awdurdod, sefydliadau allanol ac i'r cyhoedd yn gyffredinol.
5. Cynnal arolygon blynyddol o Argaeledd Tir Tai
6. Cyfrannu at ddatblygu Briffiau Datblygu a Strategaethau Datblygu ar gyfer y ddau Awdurdod

**Dyletswyddau Eraill:**

1. Cynghori a / neu gymryd rhan mewn cynllunio rhanbarthol, isranbarthol a thrawsffiniol ar faterion megis cludiant, gwastraff, mwynau, ynni adnewyddol.
2. Pob gwaith sy'n rhan o baratoi Cynllun Datblygu Lleol sengl.
3. Darparu tystiolaeth ac ymddangos fel tyst arbenigol yn yr Archwiliad Annibynnol i Gynllun Datblygu Lleol, sengl, ar gyfer ardaloedd Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.
4. Darparu tystiolaeth ac ymddangos fel tyst arbenigol ar faterion polisi mewn apeliadau cynllunio neu orfodaeth yn ôl y gofyn.
5. Cynrychioli buddiannau'r Pwyllgor yn y wasg neu ar gyfryngau eraill a chyda sefydliadau allanol.
6. Ymateb i faterion cynllunio defnydd tir eraill a allai godi.

**ATODIAD B**

**SYNIAD O ADRODDIADAU A PHENDERFYNIADAU CYFNODAU ALLWEDDOL Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL**

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **DARPARU CYTUNDEB** | **DEWISIADAU STRATEGOL A'R STRATEGAETH DDEWISOL** | **CYNLLUN ADNAU** | **ADRODD AR YMATEBION YMGYNGHORI AR Y CYNLLUN ADNAU** | **CYNLLUNIO AROLYGYDD ADRODDIAD** | **MABWYSIADU'R CYNLLUN** |
| **Pwyllgorau Craffu Gwynedd a Môn** | **Craffu** | **Craffu** | **Craffu** | | | |
| **Bwrdd Cyngor Gwynedd a Phwyllgor Gwaith Cyngor Môn** | **Argymell cytundeb** | **Cytuno** | | | | |
| **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd*** | **Cynghori** | **Cynghori** | **Cytuno** | **Cytuno** | **Derbyn**** | |
| **Cynghorau Llawn Gwynedd a Môn** | **Cytuno** | | | | | **Mabwysiadu** |

***   Bydd Aelodau o Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd a Môn ar y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ac ar y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**
***** Mae Adroddiad yr Arolygydd Cynllunio'n derfynol***

**AN AGREEMENT BETWEEN LOCAL PLANNING AUTHORITIES TO PROVIDE AND SUPPORT A JOINT PLANNING POLICY COMMITTEE FOR GWYNEDD COUNCIL AND THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

## STATUS OF THIS AGREEMENT

This Agreement is made on the 1st February 2011 between Gwynedd Council (GC) of Council Offices, Shirehall Street, Caernarfon, Gwynedd and The Isle of Anglesey County Council (IACC) of Council Offices, Llangefni, Anglesey (both hereinafter referred to as the Partner Local Planning Authorities (PLPAs)) in their respective capacities as Local Planning Authorities..

## (A) PREAMBLE

A1. The PLPAs agreed on the 15 June 2010 to establish a joint working arrangement for the provision a Joint Planning Policy Service for the PLPAs. It is agreed that:

i) a Joint Planning Policy Unit (JPPU) is created to deliver the Planning Policy Service for the PLPAs.
ii) That the JPPU commences work on a single Local Development Plan (LDP) for the PLPAs.
iii) That a Joint Planning Policy Committee (the Committee) is formed as a formal cross boundary decision making body.

A2. This Agreement establishes the arrangements for the provision, responsibilities and operation of the Committee and the division of its liabilities (if any) between the PLPAs.

A2. There is a separate agreement between both PLPAs for the support and provision of the JPPU and its scope of work is included in **Appendix A.**

## (B) ESTABLISHMENT OF THE JOINT PLANNING POLICY COMMITTEE (THE COMMITTEE)

B1. The Committee is established in accordance with requirements set out in the Local Government Act 1972 under section 101, section 102(1) (b) (power for two or more authorities to appoint a joint committee), section 103 (expenses incurred by a joint committee defrayed between the authorities), section 104 (disqualification for membership of a joint committee as per normal local authority rules) and section 105 (disability for voting on account of interests in contracts etc.)

B2. Gwynedd Council shall be responsible for the administration of the Committee.

## (C) FUNCTIONS OF THE JOINT PLANNING POLICY COMMITTEE

C1. On behalf of the PLPAs, the Committee will have the following functions:-

(i) To agree and finalise the Gwynedd and Môn Deposit Local Development Plan
(ii) To agree and finalise report on consultation responses and (where appropriate) amendments to the Gwynedd and Môn Deposit Local Development Plan
(iii) To adopt Supplementary Planning Guidance in respect of an Adopted Local Development Plan for Gwynedd and Môn.
(iv) To advise upon the formulation of the Gwynedd and Môn Delivery Agreement, Strategic Options and Preferred Strategy.
(v) To formulate the Gwynedd and Môn Deposit Local Development Plan
(vi) To formulate and consider Consultation Responses to the Deposit Local Development Plan
(vii) To receive and accept the Planning Inspector's Report.
(viii) To have responsibility for the monitoring and review of the Local Development Plan for Gwynedd and Môn
(ix) To have responsibility for advising on oversight and review of externally funded programmes not within the remit of the Committee but material to the work undertaken by or on behalf of the Committee and shared resources. This will include (but is not limited to) providing responses to Local Development plans in neighbouring Planning Authorities and consultation documents in respect of National Planning Policy and advice documents.
(x) To oversee and receive reports on the Joint Planning Policy Unit
(xi) To formulate Supplementary Planning Guidance in respect of an Adopted Local Development Plan for Gwynedd and Mon.
(xii) To appoint any panel or working group in order to assist the Committee to fulfill its functions.

C2. The table in **Appendix B** of this Agreement indicates the role of the Committee in the context of the reporting and decisions at key stages in the production of the single Local Development Plan.

C3. Development Control is not a function of the Committee and remains a function of the individual PLPAs.

## (D) MEMBERSHIP OF THE COMMITTEE

D1. The Committee shall have a total of 14 Members, including the Chairman.

D2. Each PLPA shall appoint Members to the Committee as per the following quotas:-

GC = 7 Members of GC

IACC = 7 Members of IACC

D3. PLPA Members appointed to the Committee shall follow Gwynedd's Members' Code of Conduct in all respects

D4 Each PLPA shall appoint one Member as reserve in case of casual vacancy or

inability of appointed Members to attend, but otherwise there shall be no substitute Members allowed

## (E) VOTING RIGHTS

E1. Only duly appointed Members of PLPAs shall have voting rights on the Committee and be known as “Joint Planning Policy Committee Members”.

## (F). APPOINTMENT OF MEMBERS TO THE COMMITTEE

F1. Each PLPA shall appoint its quota of Members to the Committee in accordance with its own constitutional arrangements for appointments to committees.

F2. Tenure of appointment shall be 4 years, unless the Member ceases to be a Member of the PLPA in which case a fresh appointment is to be made by that PLPA.

## (G) EXPENSES OF THE COMMITTEE

G1. Any expenses payable to Members as a result of their membership of the Joint Planning Policy Committee will be reimbursed by the individual PLPAs in accordance with their own Constitutions.

G2. The PLPAs shall meet the costs of servicing the Committee equally.

## (H) MEETINGS OF THE COMMITTEE

H1. The Committee shall in every year hold an Annual Meeting with the first meeting held after each of the PLPAs have held their respective annual Council meetings. At the Annual Meeting ordinary meetings shall be scheduled for the ensuing year.

H2. Ordinary meetings of the Committee will be held at least quarterly

H3. Extraordinary meetings may be called in addition to ordinary meetings by the senior committee administrator at the request of the Chair, or where any 3 Members of the Committee request such a meeting and have signed a requisition presented to the Chair of the Committee and he/she has refused to call a meeting or has failed to call a meeting within seven days of the presentation of the requisition.

H4. Notice and summons to meetings will be given at least 5 clear working days before a meeting.

## (I) QUORUM FOR MEETINGS OF THE COMMITTEE

I1. The quorum for a meeting of the Committee will be four of its Members.

## (J) CHAIR OF MEETINGS OF THE COMMITTEE

J1. The Annual Meeting of the Committee shall appoint a Chair and Vice-Chair

from amongst the membership of the Committee. The term of service of the Chair and Vice Chair of the Committee shall be 2 years.

J2 A member of one of the PLPAs shall be appointed Chair and a member of the other PLPA vice chair. The chair and vice chair shall alternate between Members of the PLPAs from one term to another..

J3 If the role of Chair or Vice-Chair becomes vacant during the term of office; the next meeting of the Committee shall appoint a replacement. Provided that the new appointment shall be a Member of the same PLPA as the Member he replaces.

J4. The Chair shall preside at meetings and in his absence it shall be the Vice-Chairman. If both are absent, another Member chosen by the Committee shall preside.

J5. No Special Responsibility Allowance will be paid to the Chair.

**(K) PROCEDURES OF MEETINGS OF THE COMMITTEE**

K1. Procedures of meetings of the Committee shall be in accordance with the standing orders of Gwynedd Council.

K2. All business items shall be open to public participation, except those items that are declared confidential or exempt under relevant legislation.

K3. In all cases, minutes of Committee meetings shall be taken and the identity of those Members and Officers attending shall be recorded together with declarations of personal or prejudicial interests.

K4. All issues before a meeting shall be decided upon by a simple majority of those Members voting and present in the room at the time the question is put. Unless a recorded vote is demanded, the Chairman will take the vote by show of hands or, if there is no dissent, by the affirmation of the meeting. If there are an equal number of votes for and against a motion, the person chairing the meeting will have a second or casting vote.

K5 All procedures of the Committee shall be in accordance with Gwynedd Council's Constitution unless this Agreement states otherwise.

**(L) VENUE AND ADMINISTRATION OF MEETINGS OF THE COMMITTEE**

L1. Meetings will take place at the Offices of each of the PLPAs alternatively. The cost of accommodating these meetings will be borne equally by the PLPAs.

L2. A senior committee administrator(s) will be provided by Gwynedd Council, supporting all meetings of the Committee by dealing with procedural matters associated with the arranging, calling and running of meetings, including the taking and producing of minutes and the collation, copying and distribution of agendas for meetings and by providing advice on points of procedure and the responsibilities of the Committee as necessary.

## (M) OVERVIEW AND SCRUTINY OF THE COMMITTEE

M1. Formal overview and scrutiny of the Joint Planning Policy Committee's deliberations shall be exercised by the PLPAs' existing arrangements as they see fit.

## (N) MODIFICATIONS AND TERMINATION OF AGREEMENT

N1. Amendments or modifications to this Agreement will require the consent of both PLPAs

N2. This Agreement shall continue in force until 2016.

## APPENDIX A

## The Scope of Work of the Joint Planning Policy Unit

**Main duties:**

1. Producing a single Local Development Plan for the Gwynedd Council and The Isle of Anglesey County Council Local Planning Authority areas in accordance with the Town and Country Planning (Local Development Plan) (Wales) Regulations 2005 (or as amended)
2. Monitoring the adopted Gwynedd Unitary Development Plan
3. Producing Supplementary Planning Guidance
4. Providing specialist advice (including advice on planning applications, proposals, enforcement issue, appeals) and consultation responses on Planning Policy issues to the PLPAs, external organisations and the general public
5. Undertaking Housing Land Availability Surveys on a yearly basis
6. Contributing to the production of Development Briefs and Development Strategies for the PLPAs

**Other Duties:**

1. Advise and / or participate in regional, sub-regional and cross boundary planning issues such as transport, waste, minerals, renewable energy.
2. All work involved in the preparation of the single Local Development plan.
3. Provide evidence and appear as expert witness at the Independent Examination into the single Local Development Plan for Gwynedd Council and The Isle of Anglesey County Council Local Planning Authority areas.
4. Provide evidence and appear as expert witness on policy issues in planning and or enforcement appeals when required.
5. Represent the interests of the Committee with the press or other media and with other external organisations.
6. Respond to other relevant land use planning issues that arise.

## APPENDIX B

**INDICATION OF REPORTING AND DECISIONS AT KEY STAGES OF LDP**

| | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **DELIVERY AGREEMENT** | **STRATEGIC OPTIONS AND PREFERRED STRATEGY** | **DEPOSIT LDP** | **REPORT ON CONSULTATION RESPONSES TO DEPOSIT LDP** | **PLANNING INSPECTOR'S REPORT** | **ADOPTION OF LDP** |
| **Gwynedd Scrutiny Committee & Anglesey Scrutiny Committee** | **To scrutinise** | **To scrutinise** | **To scrutinise** | | | |
| **Gwynedd Council Board & Anglesey Executive** | **To recommend agreement** | **To agree** | | | | |
| **Joint Planning Policy Committee*** | **Advise upon** | **Advise upon** | **To agree** | **To agree** | **To receive **** | |
| **Gwynedd Full Council & Anglesey Full Council** | **To agree** | | | | | **To adopt** |

***   Joint Planning Policy Committee will be made up of Members from Gwynedd and Anglesey Local Planning Authorities.***
***** The Planning Inspector's Report is final.***

Llofnodwyd ar ran Cyngor Gwynedd ....................................................
Signed on behalf of Gwynedd Council

Enw/Name:......DILYS ANN PHILLIPS......................................................

Swyddogaeth/Position ...PENNAETH DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIAL..........

Dyddiad/Date.............26/1/11.......................................................

Llofnodwyd ar ran Cyngor Sir Ynys Môn ....................................
Signed on behalf of Isle of Anglesey County Council

Enw/Name:....LYNN BALL......................................................

Swyddogaeth/Position ..DIRECTOR LEGAL SERVICES

Dyddiad/Date...1St FEBRUARY 2011..................